

(Parhâd o dudalen 17)

llorpiâu neu freichiau trol' (Geiriadur Prifysgol Cymru). Peth anhylaw iawn i'w daflu, mi dybiwn i. Ni welaf 'taflu carwden' ymhlith y pedair camp ar hugain, ac nis rhestrir, hyd y gwelaf, yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru nac yn *Welsh Children's Games & Pastimes* D.Parry-Jones. A defflid carwden mewn ardaloedd eraill? A yw'n fabolgamp y dylid ei hatgyfodi, megis chwarae coetiau? Gan daflu tsiaen moto-beic, yn lle carwden? Beth amdani, Eisteddfod yr Urdd, gyda chasgenni cwrw neu hebbynt!

Yn ôl traed Borrow.

Yn ffair lyfrau'r Bala prynais ar gyfer Ann, sy'n edmygydd mawr o George Borrow, lyfr gan olynnydd iddo: *Tramping in the Tracks of George Borrow* gan Arthur Arnold (Cyh. gan yr awdur, Abertawe, cyn 1954). Cerddodd Arnold o Fangor via'r Bala, Machynlleth, Tregaron, Llanbedr a Llanymddyfri i Abertawe, yna trwy Ferthyr a Chasnewydd i Gas-gwent. Ar ei hynt bu'n sgwrsio â rhai o'r bobl y trawai arnynt, yn null Borrow, a chan ddyfynnu hwnnw'n aml. Cefais yr argraff nad oedd fawr ddim, yn y pumdegau, wedi newid yng nghefn gwlad Cymru ers y dauddegau, neu'n wir ers oes Borrow ei hun. Er hynny, sylwa fwy nag unwaith ar un gwahaniaeth trawiadol ers dyddiau'r Sais diddan: y meini coffa i wroniaid y ddau ryfel mawr. Aeth Arnold o Fangor via'r Felinheli a Chaernarfon i Feddgelert mewn diwrnod, ac yn anochel brysiog ac arwynebol yw'r argraff a ddyry o bob un man. Drannoeth, aeth trwy (Lan) Ffestiniog ac wrth gwrs meddyliais tybed pa beth a fyddai ganddo i'w ddweud am y pentref dymunol a hanesyddol hwnnw. Yn anffodus aeth ar ôl sgwarnog a godwyd gan Borrow o'i flaen. Tybiodd, gan ddilyn Borrow, mai bardd o Ffestiniog oedd Rhys Goch Eryri, a bu'n holi a oedd maen o'r enw Cadair Rhys Goch yn rhywle yn y plwyf. Wrth gwrs ni wyddai neb ddim o'i hanes. I ardal y Gymwynas (Aberglaslyn) y perthyn y bardd a'i gadair!

Cerddi dyrys

Ar ei hynt buasai Borrow'n adrodd *'stanzas of furious war songs of his, exciting his countrymen to exterminate the English, and ... snatches of an abusive ode ... against a fox who had run away with his favourite peacock, a piece so abounding with hard words, that it was termed the Drunkard's chokepear, as no drunkard was ever able to recite it...*' (t.27). ASBO neu waeth a gâi Rhys Goch heddiw am annog difa Saeson! Paham yr atynnwyd Borrow at gerddi o'r fath? Ym mha le, tybed, y gwelsai hwy, yn 1854? Cefais i'r gerdd 'Tr Llwynog' yn Cywyddau Cymru (Gol. Arthur Hughes, Bangor, 1908), ac fe'i ceir yn Cywyddau Iolo Goch ac Eraill (H.Lewis, T. Roberts, I. Williams, 1925 a 1937). Yn fy myw ni welaf ei bod hi'n anos na'r un cywydd arall. Ond wedyn, 'doeddwn i ddim wedi meddwi cyn ceisio ei hadrodd. Eisiau ei frolio'i hun oedd ar Borrow, mi wranta'. Rhydd i unrhyw un ohonoch roi cynnig arni! Cofiaf weld yn rhywle englyn i dorri'ch dannedd arno o ddifrif, yn llawn geiriau megis 'grugrgroen'. Diau y gŵyr un ohonoch ba un yw, ac enw'r awdur. Ni thybiwn y ceid yr englyn mewn unrhyw gasgliad o geinion y gân!



Y Parch Huw Jones a Bruce yn ddwfn mewn trafodaeth, a Nia Rhosier yn mwynhau ei phaned

Anrhydedd Haeddiannol

Ar y rhestr o'r rhai a gafodd gymrodoriaeth er anrhydedd gan Brifysgol Bangor, pleser imi fu gweld enw'r Dr Raymond Garlick, bardd Eingl-Gymreig o fri, bardd da, sefydlwr a golygydd Dock Leaves (a aeth yn *Anglo-Welsh Review*) a phrif hyrwyddwr llenyddiaeth Eingl-Gymreig fel pwnc academaidd. Cofiaf ef yn dod yn athro Saesneg arnom yn Ysgol y Moelwyn, yn 1954 - gŵr golygus barfog, swil ond siriol ac athro diwylliedig a'n hysbrydolai. Cynhyrchodd ddwy ddrama yn yr ysgol: *Murder in the Cathedral* T. S. Eliot, a *Llywelyn Fawr* Thomas Parry. Yn yr ail, myfi a chwaraeodd ran y Tywysog Dafydd. Yn ystod ei gyfnod acw (1954 -61) darlledodd gerdd radio *'Blaenau Observed'* a gyhoeddwyd wedyn gan y *Dock Leaves Press* yn 1957. Os oes gan rywun gopi i'w werthu, fe'i prynaf yn llawen. Bu'n fyfyrwr ym Mangor, a dyma gerdd a anfonodd ar fy nghais i'w chyhoeddi yn Y Bangoriad yn 1971:

1944

*The monasteries on the eve
of dissolution must have been
like Bangor then - caverns of cold,
rarely a movement to be seen
in cloisters, stairways, quadrangles.
Stillness within. Outside, the spleen
of weather, world and war. It was
a fortress abbey, like the one
on Lérins; or a Templar house
with last, depleted garrison -
disabled, old, keeping the Rule
while brethren met the Saracen.*

*Three-quarters empty, still it held
the living legends of two knights,
Sir Ifor and the glimpsed Sir John.
A lifetime's service of the rites
had left them, like old tapers, bent
but in that year of darkness, lights.*

Ceir astudiaeth lawn o fywyd a gwaith y bardd gan Don Dale-Jones yn y gyfres *Writers of Wales*. (UWP, 1996).

Mae'n efengyl ichi!

Byddai'r Parch Robert Williams yn adnabyddus iawn yng nghylchoedd llenyddol

Bangor a Phenrhosgarnedd. Ni therfynid unrhyw gyfarfod na cheid englyn byrfyfyr ganddo. Dyma un y mae ei gyd-destun yn ddirgrif:

Y Brawd Nathaniel yn camgymryd ac yn dweud 'Y gŵyr curwch eich gwagedd' (Ie, darllenwch honna eto ac edrychwch Colosiaid III, 19. - B.G.)

Dawn cariad nid yw'n curo, ni welir Anwyliaid yn gwingo:
Mae gŵyr mwyn, byth yn cwyno,
Yn braf i wragedd ein bro.

O Englynion Arfon (Siapter Deoniaeth Arfon, 1989.)

Os clywsoch - neu os gwnaethoch - lithriadau digrif tebyg, rhowch wybod inni.

Diwrnod i'r brenin!

Dyna fu'r diwrnod agored yn Aber-ia (Portmeirion), Sadwrn Mawrth 31. Gwenodd yr haul arnom, a chawsom dair gwledd: gwledd i'r llygad fu'r pentref ei hun, megis erioed; cawsom ginio penigamp yng ngwesty Aber-ia ei hun, a bu'r tair darlith yn wledd. Bu'r Parch. Huw Jones yn trafod yn ddiddan *'Cyfraniad y Gymraeg i'r byd amaethyddol yng Nghymru'*; yn *'Awyr las i'w harloesi'* aeth Dei Tomos i'r afael â haldiaid o ddeunydd diddorol, sef llyfrau ymwelwyr ag Eryri a'u sylwadau; ac, fel y disgwyliwn braidd, yn *'Fel un a gerdda lwybr unig'* aeth y Parch. Towyn Jones i godi gwallt ein pennau trwy fynd ar drywydd hanes gwirioneddol gweld ysbryd. Stori hynod iasol, i mi efallai'n anad neb: 'does fawr ers y bûm i'n cerdded ar hyd yr union lwybr ar lan y gamlas yn Llangynidr, heibio'r hen ysgubor, lle gwelwyd y ddrychiolaeth erchyll. Yn anffodus, neu'n hytrach yn ffodus, ni welais i ddim i darfu ar fy rhawd.

Tamaid i aros pryd fu hyn. Cwblhaodd Towyn ei orchestwaith ar lôn gwerin Dyfed, yn dair cyfrol meddai wrthyf, a'i anfon i'r wasg. Dyna beth i edrych ymlaen ato; ac yn ôl a ddeallaf, cawn weld y tair sgwrs yn y *Casglwr* maes o law. Brysied diwrnod arall yr un mor ddiddan.